
# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu


## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

Adran Gwaith
a Phensiynau




Mae’r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth a ddewiswyd o **www.gov.uk** ar 2 Mai 2018. Mae’r wybodaeth ddiweddaraf bob amser ar gael ar-lein. Mae’r daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig ac ni ddylid dibynnu arno fel datganiad llawn o’r gyfraith yn y maes hwn.




## Cynnwys



| | |
|---|---|
| Taliad Annibyniaeth Personol | 3 |
| Cymhwyster | 4 |
| Beth fyddwch yn ei gael | 5 |
| Sut i wneud cais | 6 |


Argraffwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio'r testun a gymerwyd o **www.gov.uk** ar 2 Mai 2018.

© Hawlfraint y Goron.

ISBN 978-1-78659-068-8

**DWP26W** (Mai 2018)



**Codau QR**

Dyma godau bar sgwâr sy'n agor gwefan benodol, gan arbed i chi deipio cyfeiriadau gwe hir.

Gallwch gael ap am ddim i sganio codau QR ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar.

## Taliad Annibyniaeth Personol

www.gov.uk/pip/overview

Gallech gael help gyda rhai o'r costau ychwanegol a achosir gan afiechyd neu anabledd hirdymor.

Os ydych rhwng 16 a 64 oed, gallech gael rhwng £22.65 a £145.35 yr wythnos trwy hawlio Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).

Mae'r swm a gewch yn dibynnu ar sut mae eich cyflwr yn effeithio arnoch, nid y cyflwr ei hun.

Bydd gweithiwr iechyd proffesiynol yn eich asesu i gyfrifo lefel y cymorth y gallwch ei gael. Bydd eich cyfradd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth gywir.

Gallai eich gofalwr gael Lwfans Gofalwr os oes gennych anghenion gofalu sylweddol.

### Os ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl

Mae Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn dod i ben ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed.

Gallwch barhau i gael DLA os ydych o dan 16 oed neu os cawsoch eich geni ar neu cyn 8 Ebrill 1948 a bod gennych hawliad presennol.

Byddwch yn parhau i gael DLA hyd nes y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn eich gwahodd i ymgeisio am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP). Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth nes bydd DWP yn ysgrifennu atoch am eich DLA oni bai fod eich amgylchiadau'n newid.

Os ydych yn 65 oed neu'n hŷn, gallwch wneud cais am Lwfans Gweini.

### Help gyda'r Taliad Annibyniaeth Personol

Gallwch gysylltu â sefydliad cymorth lleol i gael help i ddeal y Taliad Annibyniaeth Personol. Cewch fwy o wybodaeth yn www.gov.uk/find-acommunity-support-group-or-organisation

## Cymhwyster

www.gov.uk/pip/eligibility

Rhaid i chi fod yn 16 i 64 oed a bod gennych gyflwr iechyd neu anabledd lle rydych:

- wedi cael anawsterau gyda bywyd bob dydd neu fynd o gwmpas (neu'r ddau) am 3 mis
- yn disgwyl i'r anawsterau hyn barhau am o leiaf 9 mis (oni bai eich bod â salwch terfynol gyda llai na 6 mis i fyw)

Mae'n rhaid i chi fod wedi byw yng Nghymru, Lloegr, neu'r Alban am o leiaf 2 o'r 3 blynedd ddiwethaf, a bod yn un o'r gwledydd hyn pan fyddwch yn gwneud cais. Os ydych wedi dychwelyd yn ddiweddar o fyw mewn gwlad arall o'r AEE, efallai y gallwch gael PIP yn gynt.

Mae'r broses yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon.

Gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) p'un a ydych yn gweithio ai peidio.

Mae yna reolau ychwanegol os ydych chi'n byw dramor neu os nad ydych chi'n ddinesydd Prydeinig.

### Anawsterau byw bob dydd

Gallech gael elfen bywyd bob dydd y Taliad Annibyniaeth Personol os oes angen help arnoch gyda phethau fel:

- paratoi neu fwyta bwyd
- ymolchi, cael bath a defnyddio'r toiled
- gwisgo a dadwisgo
- darllen a chyfathrebu
- rheoli eich meddyginiaethau neu driniaethau
- gwneud penderfyniadau am arian
- ymgysylltu â phobl eraill

### Anawsterau Symudedd

Efallai y gallwch gael elfen symudedd y Taliad Annibyniaeth Personol os oes angen help arnoch gyda mynd allan neu symud o gwmpas.

## Beth fyddwch yn ei gael

www.gov.uk/pip/what-youll-get

Fel arfer mae Taliad Annibyniaeth Personol yn cael ei dalu bob 4 wythnos. Mae'n ddi-dreth a gallwch ei gael p'un a ydych mewn neu allan o waith.

Bydd angen asesiad arnoch i gyfrifo lefel y cymorth a gewch. Bydd eich cyfradd yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau eich bod yn cael y cymorth cywir.

Mae angen i chi ddweud wrth Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar unwaith os oes newid yn eich amgylchiadau personol neu sut mae'ch cyflwr yn effeithio arnoch.

Mae Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn cynnwys 2 ran. Mae p'un a ydych yn cael un neu'r ddau ohonynt a faint a gewch yn dibynnu ar ba mor ddifrifol mae eich cyflwr yn effeithio arnoch.

### Elfen bywyd bob dydd

Mae cyfradd wythnosol elfen bywyd bob dydd Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) naill ai'n £57.30 neu £85.60.

### Elfen symudedd

Mae cyfradd wythnosol elfen symudedd Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) naill £22.65 or £59.75.

### Salwch terfynol

Cewch yr elfen bywyd bob dydd uwch os nad oes disgwyl i chi fyw am fwy na 6 mis. Mae cyfradd yr elfen symudedd yn dibynnu ar eich anghenion.

### Sut y cewch eich talu

Mae pob budd-dal, pensiwn a lwfans yn cael eu talu i mewn i gyfrif, e.e. eich cyfrif banc.

### Help arall

Os cewch PIP ac rydych yn gweithio, gallech hefyd gael elfen anabledd Credyd Treth Gwaith (hyd at £3,090 y flwyddyn, neu hyd at £4,420 os yw'ch anabledd yn ddifrifol). Cysylltwch â'r llinell gymorth credydau treth i gael gwybod.

## Sut i wneud cais

www.gov.uk/pip/how-to-claim

Gallwch wneud cais Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) newydd trwy ffonio'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Gall rhywun arall ffonio ar eich rhan, ond bydd angen i chi fod gyda nhw pan fyddant yn ffonio. Mae ffyrdd eraill o hawlio hefyd os ydych yn ei chael hi'n anodd defnyddio ffôn.

Mae'r broses yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon.

**Hawlio dros y ffôn neu ffôn testun**

Cyn i chi ffonio, bydd angen:

- eich manylion cyswllt, er enghraifft rhif ffôn
- eich dyddiad geni
- eich rhif Yswiriant Gwladol - mae hwn ar lythyrau am dreth, pensiynau a budd-daliadau
- eich rhif cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a chod didoli
- enw, cyfeiriad a rhif ffôn eich meddyg neu weithiwr iechyd
- dyddiadau a chyfeiriadau am unrhyw amser rydych chi wedi'i dreulio dramor, mewn cartref gofal neu ysbyty

Yna gallwch ffonio'r llinell Taliad Annibyniaeth Personol (PIP).

Ffôn: 0800 917 2222

Ffôn testun: 0800 917 7777

Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r Du ffoniwch +44 191 2187766

Dydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm

Cewch ragor o wybodaeth am gostau galwadau yn
www.gov.uk/call-charges

**Beth sy'n digwydd nesaf**

1. Byddwch yn cael ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch'. Ffoniwch y llinell ymholiadau Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) os bydd ei angen arnoch mewn fformat arall fel braille, print bras neu CD sain.
2. Llenwch y ffurflen drwy ddefnyddio'r nodiadau ynghlwm i'ch helpu chi. Gallwch hefyd ddarllen cymorth Cyngor ar Bopeth ar lenwi'r ffurflen.
3. Dychwelwch y ffurflen i DWP - mae'r cyfeiriad ar y ffurflen.
4. I asesu lefel y cymorth sydd ei angen arnoch, bydd gweithiwr iechyd proffesiynol annibynnol yn eich gwahodd i gyfarfod neu'n gofyn i'ch gweithiwr iechyd neu weithiwr gofal cymdeithasol am wybodaeth.
5. Os cewch eich gwahodd i gyfarfod, gofynnir cwestiynau i chi am eich gallu i wneud gweithgareddau a sut mae'ch cyflwr yn effeithio ar eich bywyd bob dydd. Gall y cyfarfod fod naill ai yn eich cartref neu mewn canolfan asesu, a bydd yn cymryd tua awr. Gallwch ddarllen cymorth Cyngor ar Bopeth ar baratoi ar gyfer asesiad.
6. Cewch lythyr sy'n dweud wrthych a fyddwch yn cael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP). Os gwnewch, fe'ch hysbysir faint a gewch a'r dyddiad y caiff ei adolygu er mwyn i chi barhau i gael y cymorth cywir.

Ni allwch wneud cais gan ddefnyddio unrhyw ffurflenni Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) sydd gennych.

**Anfonwch wybodaeth drwy'r post**

Gallwch gael ffurflen i anfon gwybodaeth drwy'r post (er y gall hyn ohirio'r penderfyniad ar eich cais). Ysgrifennwch lythyr i ofyn am y ffurflen.

Personal Independence Payment New Claims

Post Handling Site B
Wolverhampton
WV99 1AH

## Os ydych yn derfynol sâl

Gallwch gael Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn gyflymach os na ddisgwylir i chi fyw mwy na 6 mis.

Ffoniwch DWP i ddechrau eich cais am Daliad Annibyniaeth Personol (PIP) ac yna anfonwch ffurflen DS1500 iddynt (dim ond gan feddyg neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall y gallwch gael y ffurflen hon).

Ni fydd angen i chi lenwi'r ffurflen 'Sut mae eich anabledd yn effeithio arnoch' neu fynd i ymgynghoriad wyneb yn wyneb.